

"Sawl gwaith mewn blwyddyn academaidd ddylwn i gael fy arsylwi yn dysgu?"

Yn gyffredinol, ni ddylai athro gael ei arsylwi fwy na theirgwaith y flwyddyn (dan amgylchiadau arferol).

Ni ddylai athro gael ei arsylwi fwy nac unwaith y flwyddyn at ddibenion Rheoli Perfformiad ac ni ddylai cyfnod yr arsylwi fod yn fwy nac 1 awr o hyd.

Dim ond athrawon wedi'u cymhwyso ddylai arsylwi gwersi i bwrpas ffurfiol, a dylid rhoi rhybudd digonol a rhesymol (mae UCAC yn awgrymu rhybudd o wythnos gyfan).

Mae arsylwi gwersi mewn modd cadarnhaol a chytunedig yn cyfrannu tuag at ddatblygiad proffesiynol, rhannu arfer dda a chodi safonau. Mae'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni orau lle mae'r arsylwi'n digwydd oddi mewn i strwythur clir Polisi Arsylwi Gwersi yr ysgol / coleg wedi ei lunio yn dilyn trafodaeth drylwyr gyda'r staff ac ymgynghori â'r undebau.

Ni ddylid edrych ar arsylwi gwersi fel bygythiad ond yn hytrach fel ffordd y gall gweithlu helpu ei gilydd, darganfod arferion da y gellir eu rhannu a'u dathlu, nodi rhai gwelliannau y gellir gweithredu arnynt a hynny er mwyn gwella addysg y plentyn a gwaith yr athro fel ymarferwr.

Mae UCAC yn bryderus bod pwysau afresymol ac annheg ar rai oherwydd gorddefnydd a chamddefnydd o arsylwi gwersi. Ni ddylai arsylwi gwersi fod yn fodd i ganfod elfennau negyddol mewn aelod o'r gweithlu.

Am arweiniad pellach ar arsylwi gwersi gan gynnwys parthed arsylwadau gan yr Awdurdod Lleol neu'r Consortia, ac, mae UCAC wedi paratoi'r daflen wybodaeth ganlynol: [Arsylwi Gwersi mewn Ysgolion](#)

Gweler hefyd canllawiau Llywodraeth Cymru i ysgolion parthed arsylwi gwersi:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131219-classroom-observation-guidance-cy.pdf>